**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddBusnes@senedd.cymru

28 Tachwedd 2022

Annwyl Elin

Cafodd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("y Bil") ei gyflwyno i Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 22 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil ar 3 Tachwedd.

Mae'r Bil yn cael ei ystyried ar hyn o bryd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a ddechreuodd ar 8 Tachwedd ac y disgwylir iddo ddod i ben ar 29 Tachwedd. Ar 16 Tachwedd, cafodd gwelliannau eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Rydym yn awr o’r farn ei bod yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â’r gwelliannau hynny. Ni chawsom wybod gan Lywodraeth y DU fod ganddi gynlluniau i gyflwyno gwelliannau gan y llywodraeth. Mae'n bosibl y gallai Llywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau pellach i'w hystyried yn ystod y cyfnod hwn, ac, at hynny, gellid hefyd cyflwyno gwelliannau perthnasol eraill nad ydynt yn rhai gan y llywodraeth, a chytuno arnynt, mewn perthynas â’r Bil hwn.

Byddwn yn llunio un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol sy'n ymdrin â'r holl welliannau perthnasol a gafodd eu nodi yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn golygu y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cael ei osod fwy na phythefnos ar ôl cyflwyno'r set gyntaf o welliannau, fodd bynnag, rwy'n credu y bydd hyn yn sicrhau bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn adlewyrchu'n gywir ddatblygiad y Bil ac yn galluogi’r Senedd i graffu’n effeithiol.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd a Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution